


**Mae Cronfa Melinau Gwynt Llanbrynmair yn ariannu amryw o weithgareddau ac asedau yn y fro.**

**Gweinyddir yr arian gan y datblygwyr ffermydd gwynt canlynol:**
Carno 2 WindFarm
Beaufort Wind
Rowan Onshore Wind

**Ymddiriedolwyr -**
Dai Jones (Llan), Pennant Jones (Talerddig), Gwyndaf Davies (Pandy), Richard Ashton (Pandy), Fiona Cauley (Bont), Ifan Edwards (Talerddig), Sue Evans (Talerddig), Emyr Lewis (Llanbrynmair), Eifion Davies (Bont) a Bryn Jones (Llanbrynmair)
Mae'r Cyng. Gary Mitchell yn mynychu'r cyfarfodydd trwy wahoddiad.

Mae Eifion Davies yn Gadeirydd ar gyfer 2023-25
Mae Richard Ashton yn Is-gadeirydd ar gyfer 2023-25
Mae manylion cyswllt yr Ymddiriedolwyr yn **Atodiad 1**. Mae'r Gofrestr o Ddiddordebau yn **Atodiad 2.**

**Ysgrifenyddes:** Sarah Reast
Manylion cyswllt: **E-bost** machinations@btconnect.com <mailto:machinations@btconnect.com> **Ffôn.** 01650 521738 neu 07743689912 **Cyfeiriad** Ysgubor Crugnant, Pennant, Llanbrynmair SY19 7BN.

Mae gwefan Cyngor y Gymuned **www.llanbrynmaircouncil.com <http://www.llanbrynmaircouncil.com>** yn cynnwys manylion cyswllt a ffurflenni cais ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar Ddydd Mercher cyntaf bob mis ar ôl cyfarfod y Cyngor Cymuned yn y Ganolfan Gymdeithasol. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ond mae yna wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael bob tro.

**Meini prawf yr Ymddiriedolaeth**

O dan delerau'r Ymddiriedolaeth mae'n rhaid i unrhyw fuddsoddiad fod o fudd i unigolion a grwpiau o fewn cymuned Llanbrynmair yn uniongyrchol ac yn gyfan gwbl. Dyma restr o feini prawf perthnasol:

| |
|---|
| • Atal neu leddfu tlodi |
| • Hyrwyddo addysg |
| • Hyrwyddo crefydd |
| • Hyrwyddo iechyd neu achub bywydau |
| • Hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol |
| • Hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth |
| • Hyrwyddo chwaraeon amatur |
| • Hyrwyddo hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi neu hyrwyddo cytgord crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth |
| • Hyrwyddo diogelu neu wella'r amgylchedd |
| • Cynorthwyo'r rhai mewn angen oherwydd ieuenctid, oedran, afiechyd, anabledd, problemau ariannol neu anfanteision eraill |
| • Hyrwyddo lles anifeiliaid |
| • Hybu effeithlonrwydd lluoedd arfog y goron neu effeithlonrwydd y bobl, y gwasanaethau tan ac achub neu'r gwasanaethau ambiwlans |
| • Dibenion eraill sy'n cael eu cydnabod ar hyn o bryd fel rhai elusennol neu sydd yn ysbryd unrhyw ddiben sy'n cael ei gydnabod yn elusennol ar hyn o bryd |

**Enghreifftiau o brosiectau mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gefnogi:**

**Grant i ddisgyblion a myfyrwyr** - Mae pob myfyriwr dros 16 oed ac o dan 25 oed yn gymwys i wneud cais am grant i gefnogi costau eu hastudiaethau. Gall hyn gynnwys prynu cyfrifiadur, dillad neu esgidiau arbennig, deunyddiau neu offer a chostau teithio neu fyw oddi cartref. Mae'r grant yn talu £300 am bob blwyddyn astudio hyd at gyfanswm o £900. Rhaid bod y myfyriwr wedi byw yn Llanbrynmair am 3 blynedd a bod ar y gofrestr etholiadol. Mae'r grant hefyd ar gael i bobl ifanc sy'n derbyn hyfforddiant proffesiynol neu alwedigaethol. Cefnogir holl blant Ysgol Llanbrynmair gyda chostau teithio i wersi nofio.

**Grant i grwpiau a chlybiau -** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi pob math o ddigwyddiadau a mudiadau cymdeithasol megis Sioe Llanbrynmair, Merched y Wawr, Clwb y Ddôl, Cyfeillion yr Ysgol, Rainbows a Brownies, Ti a Fi, Cyfarfod Bach, Clwb Snwcer, Ffermwyr Ifanc ac ati. Mae'n talu am gostau teithio i grŵp gael mynd ar daith ac am offer neu deunyddiau.

**Cynnal a chadw adeiladau ac asedau -** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu tuag at gynnal a chadw adeiladau cymdeithasol megis y toiledau cyhoeddus a'r Ganolfan Gymdeithasol. Mae hefyd yn talu am gost torri gwair yn y parc chwarae ac am offer chwarae. Mae rhaglen o osod meinciau o gwmpas y fro, a hefyd hysbysfyrddau a diffibrilwyr a gofalu am y gofgolofn. Gwneir cyfraniad bob blwyddyn tuag at gostau torri gwair ym mynwentydd y capeli a'r eglwys.

**Prosiectau ar y gweill ac wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol**

**Cae'r Gymuned -** Yn hanesyddol mae'r cae mawr wedi bod o dan reolaeth yr ysgol ond mae'r Cyngor Cymuned yn cymryd yr awenau o 2024 ymlaen. Mae cynlluniau i ddatblygu trac beicio a rhedeg o gwmpas yr ymylon a chae pêl-droed yn y canol. Roedd rhaid talu am dorri coed peryglus a bydd sietyn yn cael ei blannu rhwng yr ysgol a gweddill y cae er mwyn rhoi ychydig o breifatrwydd i'r plant. Yr Ymddiriedolaeth y fydd yn talu am y rhan fwyaf o'r costau yma.

**Parc Chwarae -** Mae cais Loteri wedi cael ei wneud i ariannu offer chwarae newydd ond bydd angen i'r Ymddiriedolaeth dalu rhai costau ychwanegol.

**Toiledau cyhoeddus -** Mae costau arferol rhedeg y toiledau yn cael eu talu gan y Cyngor Gymuned gyda chymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond weithiau mae gofynion anarferol sydd yn fwy o faich a bydd nawdd o'r Gronfa yn cael ei ystyried.

**<u>Atodiad 1 - Manylion cyswllt yr Ymddiriedolwyr</u>**

| **2024** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwyndaf Davies** | Pandy | 01650 521581 | |
| **Eifion Davies** | Bont | 07970 127728 | |
| **Bryn Jones** | Llanbrynmair | 07767 441715 | |
| **Richard Ashton** | Pandy | 07854 347894 | |
| **Emyr Lewis** | Llanbrynmair | 01650 521385 | |
| **Dai Jones** | Llan | 01650 521399 | |
| **Pennant Jones** | Talerddig | 01686 420281 | |
| **Fiona Cauley** | Bont | 07914 710794 | |
| **Ifan Edwards** | Talerddig | 01650 521729 | |
| **Sue Evans** | Talerddig | 07745 470171 | |

**<u>Atodiad 2 - Cofrestr o ddiddordebau a chynrychiolaeth (mae pob un o'r Ymddiriedolwyr hefyd yn Gynghorydd Cymunedol)</u>**

| **2024** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwyndaf Davies** | Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol | Pwyllgor Sioe Llanbrynmair | | |
| **Eifion Davies** | Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol | | | Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd |
| **Bryn Jones** | | Pwyllgor Sioe Llanbrynmair | Mynwent yr Hen Gapel | Cyfarfod Bach |
| **Richard Ashton** | Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol | Cyfarfod Bach | Un Llais Cymru | Pwyllgor yr Ystafell Snwcer |
| **Emyr Lewis** | | Clwb Pysgota Llanbrynmair | | |
| **Dai Jones** | | | Mynwent yr Hen Gapel | Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd |
| **Pennant Jones** | Llywodraethwr Ysgol Llanbrynmair | | Mynwent yr Hen Gapel | Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd |
| **Fiona Cauley** | Fforwm Cleifion | Pwyllgor Sioe Llanbrynmair | Grŵp Natur Llanbrynmair Nature Connect | Ecodyfi<br><br>Eglwys Llan (anffurfiol) |
| **Ifan Edwards** | | Pwyllgor Sioe Llanbrynmair | | Cydlynydd Diffibrilwyr (anffurfiol) |
| **Sue Evans** | Fforwm Cleifion / Patient's Forum | | | |